

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



# Gweithgaredd Creu Baner

**Creu baner eich hunain!**

- Addas i oedran 4+
- Yn gyntaf casglwch popeth fyddwch angen (rhestr isod)
- Darllewnch y adran wybodaeth (tudalen 3) er mwyn dysgu mwy am esiamplau o faneri Canoloesol Cymru.





# Byddwch angen...

Taflenni Ffelt



'Felt tip' du





Llinyn neu Ruban



Siswrn



Pren Mesur



Glud




Opsiynol: Sticeri, stensilau, darn o bapur






@gwyneddarch

# Adran Gwybodaeth


Dyma esiamplau o faneri a fflagiau o Gymru yn ystod yr cyfnod Canoloesol.

## Llywelyn ap Gruffudd


Roedd Llywelyn ap Gruffudd (1246 - 1282) yn Dywysog Cymru o 1258 nes ei farwolaeth yng Nghilmeri yn 1282. Roedd yn fab i Gruffydd ap Llywelyn ac yn ŵyr i Llywelyn Fawr, ef oedd tywysog sofran olaf Cymru cyn concwest Edward I o Loegr.

Baner Dŷ tywysogaidd Aberffraw a Theyrnas Gwynedd, a oedd Llywelyn yn rheoli ynddi, oedd faner a phedwar llew a chefndir coch a melyn. Mae fersiwn o'r faner hon yn dal yn cael ei ddefnyddio heddiw gan Dywysog Cymru. Mae'r faner honno yn cynnwys coron a tharian werdd yn y canol.


Roedd gan Llywelyn ap Gruffudd hefyd faner bersonol.



Baner Dŷ tywysogaidd Aberffraw a Theyrnas Gwynedd, defnyddiwyd o 1195 – 1378.



Baner personol
Llywelyn ap Gruffudd.




Baner Tywysog Cymru, defnyddiwyd ers 1962.


# Owain Glyndŵr

Roedd Owain Glyndŵr (1359 - 1415) Yn Dywysog Cymru hunan-gyhoeddedig. Roedd hwn yn deitl y gallai honni yn dda amdano gan ei fod yn un o ddisgynyddion tywysogion Cymru. Yn 1400 arweiniodd Owain Glyndŵr wrthryfel yn erbyn Brenin Harri IV o Loegr. Enillodd y gwrthryfel lawer o gefnogaeth gan y Cymry ac roedd yn llwyddiannus i ddechrau. Ond ni pharodd y llwyddiant ac fe wnaeth y gwrthryfel fethu. Ar ôl brwydrau olaf y gwrthryfel ychydig iawn a wyddys am Owain Glyndŵr. Ni chafodd fyth ei ddal ac mae ei le cuddio yn parhau i fod yn ddirgel hyd heddiw. Yn chwedlau Cymru credir y bydd Owain Glyndŵr yn dychwelyd yn ôl un ddiwrnod i amddiffyn y Gymru.

Mae baner Owain Glyndŵr a phedwar llew ar gefndir coch ac aur, a chariwyd y faner hon gydag ef mewn i frwydr yn ystod y gwrthryfel yn ystod y Saeson. Mae ystyr dyluniad y faner yn ansicr. Credir bod Glyndŵr yn gobeithio dangos ei fod yn un o ddisgynyddion tywysogion Cymru gan ei fod yn debyg i faner Llywelyn ap Gruffudd. Ond mae hefyd wedi cael ei ddweud mai efallai fod y dyluniad wedi cael ei ddatblygu o faneri Powys Fadog a'r Deheubarth, ble roedd ei rhieni yn dod ohono. Mae gan faner Powys Fadog lew coch ar gefndir aur, ac mae gan faner y Deheubarth lew aur ar gefndir coch.

Mae baner Owain Glyndŵr dal yn boblogaidd heddiw a gall ei weld yn ystod rhai digwyddiadau yng Nghymru.





Baner Powys Fadog (tad Owain Glyndŵr)



Baner Deheubarth (mam Owain Glyndŵr)

# Creu Baner eich hunain!

Os ydych wedi darllen yr adran wybodaeth mae ganddo'ch popeth rydych angen i greu baner eich hunain! Pob lwc! Gyrrwch ni lluniau o eich baner chi!

@gwyneddarch (Facebook, Twitter, Instagram)

1. Gwnewch lun o faner o ddarn o ffelt gan ddefnyddio pren mesur a 'felt tip' du.



2. Yn ofalus torrwch allan y siâp baner. Gwneud yn siŵr i ofyn oedolyn i'ch helpu os oes angen.



3. Torrwch ddau dwll ar top y baner, un ar naill ochr. Gwnewch hyn drwy binsio'r ffelt yn eich bysedd a defnyddio'ch siswrn.





4. Rhowch eich llinyn drwy un o'r tyllau a'i chlymu. Gwneud yr un peth yr ochr arall.





5. Mae’n amser i addurno eich baner! Ar gyfer hyn gallwch defnyddio sticeri, ‘felt-tip’ lliwio, neu torri allan lluniau a’I gludo, mae fyny i ti!





Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn rhedeg cangen Bangor o Clwb Archaeolegwyr Ifanc. Mae’r clwb i oedran 8-16. Os oes gennych diddordeb ymuno cysylltwch a danamor@heneb.co.uk

CAI clwb archeolegwyr ifanc

YAC young archaeologists’ club